ARFERION DIOGELWCH DA: Y 10 CANLLAW UCHAF

Mae'r mesurau canlynol yn ymddangos yn llawer o'r cyngor a roddir ar y wefan hon. Gall busnesau neu sefydliadau droi atynt wrth drefnu mesurau diogelwch newydd.

Bydd llawer ohonynt yn helpu i ddiogelu yn erbyn troseddau yn ogystal â brawychiaeth a bygythiadau eraill i ddiogelwch. Rhoddir cyngor manylach am fygythiadau a gwrthfesurau penodol mewn mannau eraill yn yr adran hon.

1. Cynhaliwch asesiad risg i benderfynu ar y bygythiadau sy'n eich wynebu a pha mor debygol ydynt. Nodwch eich gwendidau.

2. Os ydych yn codi neu'n prynu safle newydd, ceisiwch ystyried diogelwch yn ystod y cam cynllunio. Fe fydd yn rhatach a mwy effeithiol nag ychwanegu mesurau yn ddiweddarach.

3. Gwnewch ymwybyddiaeth o ddiogelwch yn rhan o ddiwylliant eich sefydliad a sicrhau bod diogelwch yn cael ei gynrychioli ar lefel uwch.

4. Sicrhewch fod safonau twtio a glanhau (cymhennu) sylfaenol da ar hyd a lled eich safle. Cadwch fannau cyhoeddus yn daclus ac wedi'u goleuo'n dda, gan dynnu unrhyw ddodrefn diangen a chadw gerddi'n glir hefyd.

5. Defnyddiwch gyn lleied â phosib o fynedfeydd a rhowch gerdyn pàs i staff ac ymwelwyr. Os bydd modd, peidiwch â chaniatáu i gerbydau heb awdurdod ddod yn rhy agos at eich adeilad.

6. Gosodwch fesurau corfforol priodol, fel cloeon, larymau, systemau CCTV a goleuo.

7. Edrychwch ar eich trefniadau ar gyfer delio â'r post ac ystyriwch sefydlu ystafell bost oddi ar eich prif safle.

8. Wrth recriwtio staff neu gyflogi contractwyr, ymchwiliwch i gefndir yr unigolion a mynd ar ôl tystlythyrau.

9. Ystyriwch y ffordd orau o warchod eich gwybodaeth a chymryd rhagofalon priodol gyda diogelwch technoleg gwybodaeth.

10. Cynlluniwch a rhowch brawf ar eich cynlluniau ar gyfer parhad y busnes, gan sicrhau eich bod yn gallu gweithredu heb fynediad at eich safle na systemau technoleg gwybodaeth.